

GWAITH CYMDEITHASOL PROFFESIWN POBL



DEWIS GYRFA GADARN

www.cgcyrmru.org.uk

GWAITH CYMDEITHASOL - PROFFESIWN

Mae'r llyfryn hwn, a gyhoeddwyd gan Gyngor Gofal Cymru (y Cyngor Gofal), yn rhoi cipolwg ar waith cymdeithasol fel dewis gyrfaoel. Mae'n amlinellu beth mae'r swydd yn ei olygu, a pha sgiliau, cymwysterau a phrofiad sydd eu hangen. Fe gewch hefyd atebion i gwestiynau a ofynnir yn aml.

Cewch wybodaeth pellach ar ein gwefan www.cgymru.org.uk.

Sefydlwyd y Cyngor Gofal yn 2001 i hyrwyddo ymddygiad ac ymarfer o safon uchel ymhlith gweithwyr gofal cymdeithasol a safonau uchel wrth iddynt hyfforddi. Rydym yn cymeradwyo hyfforddiant cymhwysol gwaith cymdeithasol a chynnal y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol. Mae hyn yn golygu bod gan Weithwyr Cymdeithasol gyswllt cyson â'r Cyngor Gofal, ac ein gobaith wrth ddarparu'r llyfryn hwn yw rhoi'r dechrau gorau posib i chi ar eich taith tuag at yrfa werth chweil sy'n rhoi boddhad.

© (2016) v5 Cyngor Gofal Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Gofal Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Cyngor Gofal Cymru.

ISBN: 978-1-909867-86-4

COPIAU PELLACH A FFORMATAU ERAILL

Gallwch gael copïau pellach o'r ddogfen hon mewn print bras neu mewn fformatau eraill, os oes eu hangen.



POBL

“Rwyf wedi gweithio'n ddiflino i ddatrys nifer o broblemau i ni, rwyf wedi gwneud gwahaniaeth anferth i'n bywydau.”

Siân Jenkins, defnyddiwr gwasanaeth



**GALLWCH CHI HEFYD
GYNORTHWYO POBL I WNEUD
NEWIDIADAU POSITIF.
DEWISWCH WAITH
CYMDEITHASOL**

BETH YW GWAITH CYMDEITHASOL?

Mae gwaith cymdeithasol yn golygu gweithio gyda phobl er mwyn gwella eu bywydau. Mae'n golygu asesu amgylchiadau, darparu cefnogaeth, cyngor a gwybodaeth er mwyn helpu'r rhai sydd angen cymorth i gymryd rheolaeth o'u bywydau ac i wneud dewisiadau cadarnhaol.

Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn cael eu hyfforddi'n broffesiynol er mwyn cefnogi amrywiaeth o bobl sy'n wynebu anawsterau, gan gynnwys:

PLANT NEU OEDOLION...

- **sydd angen cefnogaeth neu eu hamddiffyn**
- **gyda phroblemau iechyd meddwl**
- **gydag anabledd corfforol neu anabledd dysgu**
- **gydag anghenion synhwyraidd**
- **wedi'u heffeithio gan alcohol neu gyffuriau**
- **sy'n gynhalwyr**

Mae meithrin perthynas gydag unigolion, eu teuluoedd, eu cynhalwyr ac eraill yn ganolog i'r rôl. Er mwyn gwneud hyn, rhaid goresgyn y pethau sy'n rhwystro cyfathrebu megis gwahaniaethau ieithyddol, anawsterau emosiynol ac anabledd.





Byddwch chi'n canolbwyntio ar alluogi pobl i fynegi'u teimladau a'u safbwyntiau ac i ymarfer eu hawliau pan yn briodol, ar amser pan fo bywyd yn gryn her iddynt.

Fel gweithiwr cymdeithasol, byddwch yn helpu unigolion, teuluoedd a chynhalwyr i fod mor annibynnol â phosib, tra'n sicrhau, pan fo hynny'n briodol, bod camau'n cael eu cymryd i'w hamddiffyn rhag niwed. Golygir hyn weithio'n effeithiol gydag eraill i sicrhau bod unigolion wedi'u diogelu ac yn derbyn y cymorth iawn i ddiwallu eu hanghenion.

GWEITHIO GYDA...

gwasanaethau iechyd

heddlu

therapyddion galwedigaethol

staff gofal preswyl

gweithwyr gofal cartref

gwasanaethau addysg

asiantaethau gwirfoddol



PAM DEWIS GWAITH CYMDEITHASOL?

Mae gwaith cymdeithasol yn yrfa lawn her ac amrywiaeth ac mae pob diwrnod gwaith yn wahanol.

Byddwch yn gweithio gyda phob math o bobl, pawb gyda'u cryfderau, anghenion a'u dyheadau unigryw eu hunain am y dyfodol. Byddwch yn cyflawni sawl swyddogaeth, gan gynnwys asesu anghenion, trefnu gwasanaethau, diogelu a helpu pobl i fynegi eu barn. Y brif swyddogaeth fydd sicrhau newid er gwell ym mywydau pobl. Gall fod yn waith anodd, ond mae'n waith gwerth chweil bob amser.

“Gyda’r agwedd iawn, empathi a chred mewn cyfiawnder cymdeithasol fe all gweithio o fewn unrhyw un o feysydd gwaith cymdeithasol roi llawer o foddhad. Ond yn fwy na dim, mae angen sylweddoli y bydd eich boddhad yn dibynnu ar yr hyn y byddwch chi yn fodlon ei gyfrannu i’r gwaith.”

Kirk Hawksworth -
Gweithiwr cymdeithasol cymwysedig



PWY SY'N GALLU BOD YN WEITHIWR CYMDEITHASOL?

Mae'r teitl 'Gweithiwr Cymdeithasol' yn un sydd wedi'i ddiogelu, sy'n golygu mai dim ond pobl â chymhwyster proffesiynol penodol all ddefnyddio'r teitl.



Yn y DU, mae'n rhaid ennill gradd neu radd Meistr mewn gwaith cymdeithasol er mwyn cymhwyso. Rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol gofrestru ar Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol y Cyngor Gofal er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i ymarfer. Proffesiwn pobl yw gwaith cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'n cymryd mwy na diddordeb mewn pobl neu ennill y cymhwyster i fod yn weithiwr cymdeithasol da. Mae'r proffesiwn angen dynion a menywod sydd â'r gallu i helpu eraill i wella'u bywydau trwy gyfuniad o wybodaeth, sgiliau a phriodweddau personol.

PRIODWEDDAU ADDAS:

dealltwriaeth dda o ofal cymdeithasol
meddwl yn glir
trylwyr ac effeithlon
amyneddgar a phenderfynol
gonest a dim yn barnu
ystyriol a chefnogol
y gallu i wneud i bobl
deimlo'n gyfforddus

SGILIAU ADDAS:

cyfathrebwr ardderchog
gallu gweithio gyda chydweithwyr
a proffesiynau eraill
gallu i wneud penderfyniadau anodd
gallu i gymryd camau i amddiffyn
pobl fregus
gallu i ddadansoddi a chofnodi
gwybodaeth ac ysgrifennu adroddiadau
rheoli amser tra'n gweithio o
dan bwysau

Fel gweithiwr proffesiynol cofrestredig, bydd hefyd angen cydymffurfio â'r Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol.

Y SAITH CAM I WAITH CYMDEITHASOL

**1 ENNILL PROFIAD O WAITH CYMDEITHASOL/
Y CYMWYSTERAU PERTHNASOL**

**2 YMRESTRU AR Y RADD/GRADD
MEISTR MEWN GWAITH CYMDEITHASOL**

**3 MYNYCHU DARLITHOEDD, CWBLHAU
GWAITH CWRS AC YMGYMRYD Â
CHYFLEOEDD DYSGU YMARFER**

4 GRADDIO/CYMHWYSO

**5 COFRESTRU GYDA'R CYNGOR GOFAL FEL
GWEITHIWR CYMDEITHASOL CYMWYSEDIG**

**6 DOD O HYD I SWYDD
FEL GWEITHIWR
CYMDEITHASOL,
YN HELPU POBL I
WNEUD NEWIDIADAU
CADARNHAOL**

**7 PARHAU I DDYSGU,
DATBLYGU A GWELLA
EICH YMARFER DRWY
GYDOL EICH GYRFA**



CWESTIYNAU A OFYNNIR YN AML



C: OES CYFLEOEDD GYRFA YN Y MAES?

Gyda thua 5,500 o weithwyr cymdeithasol yn cael eu cyflogi yng Nghymru, a'r galw ar gynnydd, mae digon o gyfleoedd am waith. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yn cael swydd o fewn chwe mis o gymhwyso ac mae'r cyflog cychwynnol yn gystadleuol. Mae digon o gyfle hefyd i symud ymlaen yn y swydd ac am ddyrchafiad ar ôl magu profiad, fel datblygu i fod yn uwch ymarferydd, gweithiwr cymdeithasol ymgynghorol neu'n rheolwr tîm. Yng Nghymru, cyflogir y rhan fwyaf o weithwyr cymdeithasol gan awdurdodau lleol. Cynigir cyfleoedd hefyd mewn sefydliadau annibynnol a gwirfoddol sy'n darparu amrywiaeth eang o wasanaethau gofal cymdeithasol, o faethu i wasanaethau therapiwtig i wasanaethau cymorth gydag alcohol a chyffuriau.

C: PA GYMWYSTERAU FYDD EU HANGEN ARNA I?

Er mwyn gweithio yn y DU, mae angen gradd neu radd Meistr mewn gwaith cymdeithasol. Mae'r cymhwysterau proffesiynol cydnabyddedig yma wedi'u sefydlu'n uniongyrchol gyda'r bwriad o sicrhau fod gweithwyr cymdeithasol hyfforddedig gyda'r sgiliau a gwybodaeth y maent eu hangen i gyflawni'r swydd gyfrifol hon. Ar ôl cymhwyso bydd angen diweddarau'ch dealltwriaeth a'ch sgiliau yn rheoliadd. Yng Nghymru, mae fframwaith Dysgu ac Addysgu Proffesiynol Parhaus (DAPP/CPLE) i'ch cefnogi yn ystod eich gyrfa.

C: BETH MAE HYFFORDDI I FOD YN WEITHIWR CYMDEITHASOL YN EI OLYGU?

Bydd gradd israddedig fel arfer yn gwrs tair blynedd, tra bod y radd ôl-raddedig yn cymryd dwy flynedd.

Mae'r cwrs yn cyfuno astudiaethau academaidd/damcaniaethol, yn ogystal â phrofiad uniongyrchol. Treulir 200 diwrnod o'r cwrs ar ddysgu ymarferol ar ffurf lleoliadau gwaith gyda gwahanol gyflogwyr gwaith cymdeithasol. Mae hyn yn gyfle i gael blas go iawn ar y gwaith.

C: A OES FFYRDD HYBLYG O ASTUDIO AR GAEL?

Mae'n bosib dilyn y cwrs gradd dros gyfnod estynedig, trwy ddysgu o bell (Y Brifysgol Agored). Mae'r Brifysgol Agored nawr yn cynnig nifer cyfyngedig o leoedd i fyfyrwyr sydd eisiau gwneud y cwrs yn annibynnol – yn y gorffennol, dim ond myfyrwyr oedd yn gwneud cwrs mewn partneriaeth â chyflogwr oedd yn cael mynediad at y llwybr yma.

C: A OES CYFLEON I ASTUDIO TRWY GYFRWNG Y GYMRAEG?

Cynigir cyfleoedd amrywiol i fyfyrwyr Cymraeg eu hiaith i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir asesiad trwy'r Gymraeg ar bob rhaglen; mae'r ddarpariaeth dysgu yn amrywio, gydag un rhaglen yn cynnig darpariaeth gwbl Gymraeg. Cysylltwch yn uniongyrchol â'r brifysgol o'ch dewis i gael mwy o wybodaeth.

C: A YW'N BOSIBL YMGYMRYD Â'R CWRS GYDA CHYMORTH CYFLOGWR?

Efallai y bydd rhai cyflogwyr, fel awdurdodau lleol, yn cefnogi gweithwyr i ymgymryd â hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Gall argaeledd cyfleoedd o'r fath amrywio ar draws Cymru yn ôl y galw. Cysylltwch â'r adran gwasanaethau cymdeithasol eich awdurdod lleol i holi am argaeledd yn eich ardal chi.



C: BLE GALLAF HYFFORDDI?

Mae'r prifysgolion canlynol wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor Gofal i gynnig y radd/gradd Meistr mewn gwaith cymdeithasol.

Gradd Isradd mewn Gwaith Cymdeithasol:

COLEG PEN-Y-BONT AR OGWR - www.bridgend.ac.uk

PRIFYSGOL FETROPOLITAN CAERDYDD - www.cardiffmet.ac.uk/cymraeg/

PRIFYSGOL GLYNDŴR - www.glyndwr.ac.uk/cy

PRIFYSGOL ABERTAWE - www.swansea.ac.uk/cy

PRIFYSGOL DE CYMRU, MORGANNWG - www.southwales.ac.uk/cymraeg

PRIFYSGOL DE CYMRU, CASNEWYDD - www.southwales.ac.uk/cymraeg

Y BRIFYSGOL AGORED - www.open.ac.uk/wales/cy

Gradd Meistr mewn Gwaith Cymdeithasol:

PRIFYSGOL BANGOR - www.bangor.ac.uk/index.php.cy

PRIFYSGOL CAERDYDD - www.caerdydd.ac.uk

PRIFYSGOL ABERTAWE - www.swansea.ac.uk/cy



C: BETH YW'R GOFYNION MYNEDIAD I'R CWRS GWAITH CYMDEITHASOL?

Rydym yn argymhell cysylltu'n uniongyrchol â'r prifysgolion ynglŷn a gofynion mynediad, gan eu bod yn gallu amrywio rywfaint o un i'r llall. Fodd bynnag, bydd angen i bob ymgeisydd ddangos y gallu i gyrraedd safon academiaidd a galwedigaethol y radd neu radd Meistr, yn ychwanegol i gael:

- profiad gwaith perthnasol ym maes gofal cymdeithasol, boed wedi'i ennill trwy waith cyflogedig, gwaith gwirfoddol neu brofiad bywyd
- TGAU (neu gyfatebol) mewn mathemateg a Saesneg
- 2 Lefel A neu gymwysterau cyfatebol (os o dan 21 oed)
- gwiriad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) [gynt y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)].
- cymhwyster addysg uwch, os ydych am wneud gradd Meistr
- rhinweddau perthnasol a dealltwriaeth o'r maes gwaith cymdeithasol

C: SUT YDW I'N GWNEUD CAIS AM HYFFORDDIANT GWAITH CYMDEITHASOL?

Gwneir ceisiadau trwy UCAS (www.ucas.com).

Bydd rhai ymgeiswyr yn ceisio am gefnogaeth cyflogwyr ar gyfer eu hyfforddiant. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd angen iddynt fodloni gweithdrefnau dethol mewnol y cyflogwr cyn i'r cais gael ei anfon ymlaen i'r rhaglen gwaith cymdeithasol i'w ystyried.



C: A OES CYMORTH ARIANNOL AR GAEL ER MWYN CYMHWYSO FEL GWEITHIWR CYMDEITHASOL?

Oes. Os ydych yn byw yng Nghymru, yn astudio ar gwrs gwaith cymdeithasol cymeradwy yng Nghymru a ddim yn derbyn cymhelliant i hyfforddi, gallwch wneud cais i'r Cyngor Gofal am:

- fwrsariaeth nad asesir ar sail incwm am o leiaf £2,500
- lwfans cyfle dysgu ymarfer

Gall y rhai sy'n dilyn cwrs gradd Meistr hefyd fod yn gymwys i wneud cais am grantiau a lwfansau sy'n seiliedig ar incwm. Am fwy o wybodaeth ewch i www.cgymru.org.uk/cyllid-myfyrwyr/, gan fod y Cynllun Bwrsariaeth Gwaith Cymdeithasol yn cael ei adolygu bob blwyddyn, a gall ffigyrau newid. Neu cysylltwch â'r Tîm Ariannu Myfyrwyr a Gyrfaoedd yn y Cyngor Gofal ar 029 2078 0698 neu e-bostiwch ariannumyfyrwyr@cgymru.org.uk.

C: PAM Y MAE ANGEN PROFIAD O WAITH GOFAL CYMDEITHASOL ARNAF?

Mae profiad yn sicrhau bod gan ymgeiswyr ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ei angen i weithio yn y maes. Mae'n ffordd effeithiol o ddysgu mwy am yr amrywiol gyfleoedd ym maes gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol ac yn helpu pobl i feddwl am eu darpar yrfa. Mae hefyd yn golygu y gallwch wneud gwahaniaeth gadarnhaol i fywydau pobl cyn ymgymryd a hyfforddiant gwaith cymdeithasol.



C: SUT YDW I'N ENNILL PROFIAD?

Mae profiad perthnasol yn cynnwys gweithio gyda phobl sydd angen cymorth neu gefnogaeth, a gellir magu'r profiad hwn trwy waith cyflogedig neu wirfoddol ym maes gofal cymdeithasol, trwy brofiadau bywyd, neu gymysgedd o'r tri. Does dim gwahaniaeth a gafwyd y profiad yn rhan-amser, llawn amser neu'n achlysurol, ond mae'n rhaid iddo fedru dangos eich ymrwymiad a'ch diddordeb ym maes gwaith cymdeithasol fel dewis gyrfaoel. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth ar brofiad perthnasol.

PROFIAD TRWY WIRFODDOLI

Gellir cael cyfleoedd i wirfoddoli gydag asiantaethau gwirfoddol/elusennau, grwpiau cymunedol ac adrannau gwasanaethau cymdeithasol. Cewch wybodaeth am asiantaethau a grwpiau gwirfoddol yng Nghymru drwy'r sefydliadau canlynol:

CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)

Ffôn: 0800 2888 329 Gwe: www.wcva.org.uk

Gwirfoddoli Cymru

Gwe: www.gwirfoddolicymru.net

Ceir mwy o linciau ar ein gwefan:

www.cgymru.org.uk/dolenni-gyrfaoedd



PROFIAD WRTH WNEUD GWAITH CYFLOGEDIG YM MAES GOFAL CYMDEITHASOL

Mae cyfleoedd am waith o'r fath fel arfer yn codi o fewn adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, asiantaethau gofal cymdeithasol gwirfoddol a phreifat fel canolfannau gofal preswyl, canolfannau dydd neu ganolfannau i deuluoedd. Hysbysebir swyddi yn y wasg leol neu ar wefannau cyflogwyr a gallwch hefyd gael y manylion mewn canolfannau gwaith ac asiantaethau cyflogaeth.

PROFIAD BYWYD

STORI SOPHIE

“Mae gan fy mam salwch meddwl a fi yw ei phrif gynhaliwr. Rai blynyddoedd yn ôl, fe sylweddolais i y gallwn i ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth oedd gen i yn sgil hyn at ddefnydd da. Bu'n ysgogiad i mi edrych am waith yn y sector, gan mod i'n gwybod y byddwn i wrth fy modd. Fy nghanam cyntaf oedd cael gwaith fel gweithiwr eiriolaeth i grŵp o gynhalwyr lleol. Roedd yn gyfle i rannu 'mhrofiadau â chynhalwyr eraill, a bu'n sbardun i mi feddwl am symud ymlaen i hyfforddi'n broffesiynol fel Gweithiwr Cymdeithasol.”

Os oes gennych chi'r sgiliau, y priodweddau a'r penderfyniad i wneud gwahaniaeth i fywydau eraill, rydych chi'n barod i gymryd y camau cyntaf tuag at yrfa werth chweil sy'n rhoi boddhad, yrfa lle y gallwch **wneud gwir wahaniaeth**.

Os oes gennych chi gwestiynau pellach, neu yn dymuno trafod eich llwybr i mewn i waith cymdeithasol, cysylltwch â'r Tîm Gyrfaoedd:

**Tîm Gyrfaoedd, Cyngor Gofal Cymru,
7fed Llawr, South Gate House, Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 029 2078 0698 | E-bost: gyrfaoedd@cgcyrmru.org.uk
Minicom: 029 2078 0680 | Gwefan: www.cgcyrmru.org.uk**

Cewch fwy o wybodaeth am yrfa mewn gwaith cymdeithasol ar ein gwefan, ynghyd â gwybodaeth ar gyllid bwrsariaeth gwaith cymdeithasol, cofrestru gwaith cymdeithasol, a manylion cyswllt prifysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru.